# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 8 Mehefin 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

## 76(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

**Rhys ab Owen (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i amddiffyn rhentwyr ar ôl gohirio gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016?

**Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y newyddion y bydd y grŵp sy'n berchen ar Ganolfan Ganser Rutherford yng Nghasnewydd yn cael ei ddiddymu?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor

(5 munud)

**NDM8021** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14:

1. Yn ethol James Evans (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn lle Peter Fox (Ceidwadwyr Cymreig).

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd - Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru

(120 munud)

**NDM8014** Huw Irranca-Davies (Ogwr)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 'Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru'.

2. Yn cymeradwyo'r cyfarwyddiadau polisi a argymhellir ynghylch deddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd mewn digon o amser ar gyfer etholiadau nesaf y Senedd yn 2026.

3. Yn nodi bod yr adroddiad hefyd yn galw ar y Senedd i drafod nifer o faterion sy'n gysylltiedig â diwygio'r Senedd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu at y datganiad sefyllfa ar ddiwygio'r Senedd gan Lywodraeth Cymru ar 10 Mai 2022 a oedd yn tanseilio annibyniaeth a gwaith y pwyllgor.

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at y ffaith na fyddai'r system bleidleisio a gynigir gan y pwyllgor yn caniatáu i bleidleiswyr bleidleisio dros ymgeisydd unigol o'u dewis.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

(60 munud)

**NDM8015** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyflawni'r gwelliannau a addawyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

2. Yn credu bod y penderfyniad i symud y bwrdd iechyd o fesurau arbennig ym mis Tachwedd 2020 yn amhriodol.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i osod trefn mesurau arbennig ddiwygiedig i roi'r arweiniad a'r adnoddau sydd eu hangen ar y bwrdd iechyd i fynd i'r afael â methiannau, a darparu'r gofal iechyd o ansawdd uchel y mae pobl Gogledd Cymru yn ei haeddu.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am gomisiynu adolygiad annibynnol i ystyried manteision posibl disodli Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr â strwythurau newydd i ddarparu gofal iechyd yn y gogledd, oherwydd ei broblemau cronig.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8011** Joel James (Canol De Cymru)

Materion cudd sy'n effeithio ar bobl fyddar a phobl sy'n dioddef o golled clyw

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Mehefin 2022